**Cofnodion Cyfarfod CCG Ebrill 29.3.21**

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:208: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Gareth Jones, Gwen Lloyd, Geraint Wigley, William Owen, Huw Williams, Aled Griffiths, Paul Hughes, Deryck Lewis Gwenfair Davies, Iwan Jones, Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

**19:209: Ymddiheuriadau:** Gareth Owen

**19:210: Datganiadau o ddiddordeb:** Paul Hughes – Cynllunio

**19:211: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Mawrth** Cynigiodd Geraint Wigley fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan William Owen.

**19:212: Materion yn codi o'r Cofnodion**

- **Ffordd beryg ar ôl torri coed rhwng Llanwrin a Ffridd Gate** (19:202:8) Mae Elwyn Vaughan wedi trefnu i'r Cyngor agor y portffolio eto
- **Parcio yng Nghemaes** (19:207:4) - Mae Elwyn Vaughan wedi trefnu cyfarfod i drafod lle parcio ar gyfer Maes–y-Llan. Cemaes.
- **Gwefan y Cyngor** (19:17:1**)** Nodwyd na fyddai modd gweithredu ar y pwynt hwn gan nad oedd yn cydymffurfio â rheoliadau statudol ariannol a threfniadol.

**19:213: Gohebiaeth: -Plannu coed ym Mryn Uchel, Cwmlline. Cefnogwyd y cais. Cysylltir â Choed Cymru.**

**19:214: Cynllunio**

**Nodir nad oedd Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan yn rhan o'r trafodaethau hyn**

**i.21/0496/FUL** Newid capel yn gartref - Capel Nebo, Glantwymyn, Machynlleth, Powys Cymeradwywyd y cais. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Jones

**ii. 21/0668/FUL** - Defnyddio tir ar gyfer 10 carafan symudol a gwella chalet i'w gosod ar gyfer gwyliau a gwaith cysylltiedig - Hill Side Retreat, Ceinws, Machynlleth, Powys SY20 9EX Cynigiwyd na ddylid derbyn y cais hwn gan fod dau safle carafanau y pentref yn barod a bod y ffordd gefn yn arwain at y lleoliad yn gul gydag ychydig iawn o fannau i basio. Mynegwyd siom nad oedd new Cymraeg ar y safle. Cynigiwyd hyn gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Gwen Lloyd.

**19:215: Materion Ariannol:**

**19:215:1: Cyflwyno Cyfrifon Blynyddol** Cynigiwyd Gareth Jones fod y cyfrifon yn gywir ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths

**19:215:2: Asesiad Risg a Rhestr Asedau** Ychwanegwyd Ciosg Cemaes at y rhestr. Cynigiwyd y dylid derbyn y Rhestr Asedau gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths

Penderfynwyd defnyddio gwasanaethau Whittingham Riddell eto eleni ar gyfer yr archwiliad mewnol ac anfonir llythyr ymgysylltu atynt.

Taliadau:

- Whittingham Riddell £90.00 (158255) Gwasanaethau Cyflogres Rhagfyr 2020-Chwefror 2021 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Jones
- HMRC £228.80 (PAYE 6.1.21.-5.4.21) Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Gareth Jones
- Cyflog y Clerc £1025.00 (Ion, Chwefror, Mawrth) Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones
- Gloversure £24.00 adnewyddu gwasanaeth am 2 flynedd (18842)

- **Bancio ar-lein**. Mae'r clerc ac un cynghorydd wedi cofrestru ar gyfer bancio ar-lein. Bydd yn gwirio ydy clerc yn cael gweithredu fel llofnodwr

**19:216: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:216:1: Adroddiad y Cynghorydd Sir – Elwyn Vaughan:** Adroddwyd bod ehangu'r lle parcio yng Nghemaes yn mynd yn ei flaen a bod cyllid wedi cael wedi cael ei glustnodi ar gyfer y gwaith.

**19:216:2: Adroddiad ar Ysgol Glantwymyn- Aled Griffiths** Penodir athro/athrawes ychwanegol ac o ganlyniad bydd pedwar dosbarth o fis Medi ymlaen, sy'n newyddion gwych i'r ysgol.

**19:216:3: Adroddiad Canolfan Glantwymyn – Paul Hughes** Mae'r Ganolfan yn cael ei defnyddio ar gyfer yr Ysgol Feithrin ar hyn o bryd ac mae'r gwaith ar y to yn mynd yn ei flaen.

**19:217: Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr** Anfonir manylion perthnasol i'r clerc yn ystod y mis nesaf.

**19:218:** Diffyg ymateb gan Iechyd Bro Ddyfi Doedd ateb wedi dod i'r llythyr gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019 er bod y Cyngor wedi cytuno i ganiatau 3 mis ychwanegol i'w wneud, a bod mis arall wedi mynd heibio ar ben hynny.
Nodwyd bod modd cyflwyno cwynion a phryderon yn uniongyrchol i'r Cyngor Iechyd Cymunedol gan aros yn ddi-enw wrth i'r cwynion gael eu harchwilio ymhellach. Rhaid cyflwyno'r cwynion a phryderon i'r Cyngor Iechyd Cymunedol yn y lle cyntaf er mwyn iddo allu gweithredu ar eich rhan. Gellir cysylltu drwy law e-bost a cheir manylion llawn ar https://pthb.nhs.wales/contact-us/feedback-and-complaints/ Penderfynwyd nodi'r wybodaeth yn y Blewyn Glas a chysylltu eto ag Iechyd Bro Ddyfi. Cynigiwyd hyn gan Gwenfair Davies ac fe'i heliwyd gan Aled Griffiths.

**19:219:** Hyfforddiant i'r Clerc – Cytunwyd i ddarparu hyfforddiant i'r clerc gan Gloversure, a chefnogi'r clerc i ymchwilio i gymhwyster (CiLCA) o bosib, gan geisio nawdd allanol yn y lle cyntaf.
**19:220; Cynllun Busnes Biosffer Bro Ddyfi**– Canmolwyd gwaith Biosffer Bro Ddyfi dros yr ardal. Bydd Siôn Ifans yn ymateb ar ran y Cyngor.
**19.221: Unrhyw fater arall**
**19:221;1: Ciosg Cemaes -** Tynnwyd sylw at gyflwr y ciosg.
**19:221:2: Abercegir** – y ffordd drwy'r pentref wedi ei chulhau'n sylweddol achos gosod tarmac yn ddiweddar.
**19:221:3: Manhole ger Brynheulog, Cwmlline** yn drafferthus ac yn berygl o hyd.
**19:221:4: Etholiadau -** Dymunwyd yn dda i Elwyn Vaughan, gan gydnabod ei angerdd a'r gwaith y mae e'n ei wneud dros ei ardal frodorol.
**Caewyd y cyfarfod am 9.20yh.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 7.30yh ar y 27ain o Fai**

-----------------------------------------------